Archwiliad Cyn-hwrdda

Er nad yw hyrddod ond yn ganran fechan o'r praidd fridio, maent yn cyfrannu hanner yr eneteg, ac felly mae gan eu perfformiad ddylanwad pwysig ar gynhyrchiant a phroffidioldeb preiddiau.

Pam archwilio hwrdd?

Mae gwneud yn siŵr fod eich hyrddod yn holliach ymhell cyn dechrau'r tymor bridio yn allweddol ar gyfer tymor llwyddiannus.

Yr amser gorau i gynnal archwiliad cyn-hwrdda ar hwrdd:

- 10 wythnos cyn hwrdda

Yr hyn y gallai'r milfeddyg roi sylw iddo wrth archwilio hwrdd:

- Archwilio ffrwythlondeb trwy gymryd samplau o'r semen
- Cyflwr a maint y ceilliau
- Sgôr cyflwr corff
- Cyflwr y dannedd, cymalau a thraed
- Statws elfennau hybrin.

Pethau i'w hystyried wrth droi hyrddod at y defaid:

- Effaith hwrdd cloff ar eich praidd. Bydd cloffni yn golygu bod hyrddod yn llai cynhyrchiol am ei bod yn anodd iddynt symud ac na allant ymdopi â chynifer o famogiaid. Mae treulio mwy o amser yn gorwedd yn golygu hefyd nad yw'r hwrdd yn bwyta cymaint. Yn ogystal, gallai hwrdd cloff olygu semen o ansawdd is.
- Ystyriwch statws iechyd eich hyrddod – ydyn nhw'n cael eu prynu o ddiadell â statws iechyd hysbys? Os na, trafodwch unrhyw brofion addas â'ch milfeddyg
- A yw brechiadau'r hwrdd a thriniaethau rhag parasitiaid yn gyfamserol?
- Sawl cylchred a roddir i'r hyrddod? Mae cyfnod wyna byr o fantais i'r praidd a'r bugail
- A fydd radlau yn cael eu defnyddio?
- Y gymhareb mamog:hwrdd.

Cysylltwch â'ch milfeddyg i drefnu archwiliadau ar gyfer eich hyrddod